**Grŵp Ecosystem yr Ucheldir**
**7 Gorffennaf 2011**

**Yn bresennol:** Charles Morgan (Cadeirydd) (PONT), Julia Korn (Ysgrifenyddiaeth) (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Joe Daggart (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Steve Chambers (Llywodraeth Cymru), Jan Sherry (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Peter Jones (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Sian Whitehead (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Dave Lamacraft (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), Bev Lewis (Ymddiriedolaethau Natur Cymru), Mike Jenkins (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru), Clive Faulkner (Ymddiriedolaethau Natur Cymru/Llywodraeth Cymru), Gareth Ellis (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Ymddiheuriadau:** Reg Thorpe (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), Chris Tucker (Comisiwn Coedwigaeth Cymru), Helen Buckingham (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

**<u>Ceisiadau Amgylchedd Cymru 2011/12</u>**

**Adfer mawndiroedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan ddefnyddio gwlân**
Y llynedd llwyddodd y prosiect hwn i ymgysylltu â phobl a chynyddu'r diddordeb yn y cynefin a'r difrod a achosir gan erydu. Mae mewnbwn Grŵp yr Ucheldir yn cyfrannu elfen o wyddoniaeth i'r prosiect. Ceir potensial i ehangu'r prosiect fel ei fod yn cynnwys ailsefydlu plu'r gweunydd drwy annog pobl leol i'w tyfu gartref o hadau a'u cyfrannu i'r prosiect.

Un o'r prif gostau yw'r angen i lanhau'r gwlân, ac ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth ar gael am yr effaith bosibl (os o gwbl) y gallai gwlân ei chael ar yr amgylchedd.

**<u>PENDERFYNIAD</u>**
Cytunodd y grŵp y gallai'r prosiect hwn gael ei gyflwyno pe bai'r gwaith o ailsefydlu plu'r gweunydd yn cael ei ymgorffori yn y cais.
**<u>CAMAU GWEITHREDU</u>**

- **Bydd GE yn gweithio gyda Pip i ddatblygu a chyflwyno cais. Rhaid i'r prosiect gael ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2012.**
- **Bydd MJ yn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â'r defnydd o wlân yn y prosiect, a ph'un a oes yn rhaid glanhau'r gwlân ai peidio.**
- **Bydd DL/GE yn trafod unrhyw broblemau posibl o safbwynt cwtiaid aur – ymddengys mai yn y Mynyddoedd Duon y mae'r cwtiaid aur wedi'r cyfan.**

Mae prosiectau posibl eraill yn cynnwys y Prosiect Rhododendron ym Mharc Cenedlaethol Eryri, Abergwesyn, y Migneint a'r Berwyn.
**<u>CAMAU GWEITHREDU</u>**

- **Bydd JK yn gofyn i Clare yn Amgylchedd Cymru a oes modd i'r ceisiadau gael eu hanfon at y Cadeiryddion ar ôl y dyddiad cau.** *Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud, a bydd y ceisiadau'n cael eu hanfon at Gadeiryddion y Grwpiau Ecosystem ar ôl y dyddiad cau, a bydd ganddynt*

*oddeutu 10 diwrnod i anfon eu sylwadau. Ar gyfer y rownd nesaf o grantiau byddai angen i'r sylwadau ddod i law Amgylchedd Cymru erbyn 10 Awst.*

- **Bydd JK yn gofyn i Amgylchedd Cymru a oes yn rhaid i'r prosiectau gael eu cyflawni erbyn 31 Mawrth 2012, ynteu ai dim ond gwario'r arian y bydd yn rhaid ei wneud erbyn hynny.** *Wedi'i wneud – rhaid i bob gweithgaredd a ariennir gan y Gronfa Grantiau Bioamrywiaeth ddigwydd yng Nghymru a chael eu cwblhau cyn 31 Mawrth 2012.*
- **Bydd angen i bawb ystyried a chyflwyno prosiectau sy'n cyd-fynd yn fras â'r blaenoriaethau.**
- **Bydd JK yn gofyn i Amgylchedd Cymru a gedwir cofnod o'r polisïau y mae sefydliadau'n eu cyflwyno gyda'u cais.** *Wedi'i wneud – mae Amgylchedd Cymru yn cadw pob polisi /cyfansoddiad / gwybodaeth gefndir am brosiectau sy'n cwblhau proses gofrestru Amgylchedd Cymru. Mae Amgylchedd Cymru yn annog pob grŵp cymwys o ymgeiswyr i gofrestru gydag ef (mae hynny hefyd yn galluogi mynediad i grantiau eraill Amgylchedd Cymru). Nid yw Amgylchedd Cymru yn cadw dogfennau ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt wedi cofrestru; caiff unrhyw wybodaeth ategol ei dychwelyd iddynt.*
- **Bydd JK yn gofyn i Amgylchedd Cymru a oes modd i'r holl geisiadau gael eu hanfon yn electronig.** *Wedi'i wneud – rhoddodd Amgylchedd Cymru gynnig ar dderbyn ceisiadau i'r Gronfa hon drwy e-bost y llynedd, a gwelwyd nad oedd hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, gan fod y ffurflenni'n cael eu sganio gan swyddfa Amgylchedd Cymru, ni ddylai hynny effeithio ar amser unrhyw rai o'r Grwpiau Ecosystem.*
- **Bydd angen i bawb archwilio dulliau o rannu gwybodaeth am flaenoriaethau Grŵp Ecosystem yr Ucheldir â phartneriaid eraill a allai gyflwyno ceisiadau, e.e. Partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.**

**Adborth am y Gronfa Fioamrywiaeth**

- Nifer gyfyngedig o gyrff a all gyflwyno ceisiadau'n ymwneud â'r ucheldir. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol gyflwyno ceisiadau ar ran Partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
- Mae'n anodd o hyd bodloni'r meini prawf ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth.
- Ceir dymuniad i ymestyn y cynnig uchaf posibl i £30,000.
- Mae amseru yn broblem. Caiff y rhan fwyaf o'r gwaith sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ei gyflawni yn ystod y gwanwyn/haf, felly byddai dyddiad dechrau ym mis Ebrill yn well.
- Cynaliadwyedd prosiectau – mae cynllun hirdymor yn fanteisiol iawn, a byddai cyllid sy'n ymestyn y tu hwnt i gyfnod o flwyddyn yn ddefnyddiol, e.e. prosiectau tair blynedd (fel y digwyddodd gyda hen Gronfa Her y Rhywogaethau).

**CAMAU GWEITHREDU**

- **Bydd JK yn cyflwyno cais am arian i Gronfa Fioamrywiaeth Amgylchedd Cymru ar y System Gynllunio a Chyllidebu (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)**
- **Bydd JK yn trafod pob mater a godwyd gyda Clare yn rhan o adolygiad o'r gronfa, os bydd yn llwyddo yn ei gais am gyllid.**

**<u>Mapio blaenoriaethau</u>**
**Lefel 1 –** Pob cynefin (cam 1/cysylltedd) ac ati
**Lefel 2 –** Cynefinoedd sy'n flaenoriaeth – plotio Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dewis rhwydweithiau swyddogaethol ac ati'n ogystal â safleoedd ail haen
**Lefel 3 –** Camau gweithredu sy'n flaenoriaeth ar gyfer y Grwpiau Ecosystem canlynol: yr ucheldir, glaswelltir a gweundir yr iseldir, yr arfordir, gwlyptir yr iseldir, tir fferm amgaeëdig ac ardaloedd trefol.

**Ymgynghori**
Cafodd y mapiau camau gweithredu sy'n flaenoriaeth eu hanfon i ranbarthau'r Cyngor Cefn Gwlad ac at bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn ymgynghori yn eu cylch ym mis Mai/Mehefin. Ceir crynodeb o'r sylwadau ynghylch yr ucheldir isod:

1. Gellid cynnwys mawn dwfn wedi'i orchuddio â Sitca yng Nghastell-nedd Port Talbot/Gorllewin Morgannwg, oherwydd pwysau datblygu enfawr o safbwynt ffermydd gwynt.

***PENDERFYNIAD? I'W GADARNHAU***

2. Rhoi ystyriaeth yn gyffredinol i achosion lle ceir pwysau sylweddol ar gynefin.

***PENDERFYNIAD**: Cynnwys Tuaman Plateux yng Nghymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Sir Drefaldwyn i'w gyflawni*

3. Cwestiynau ynghylch y meini prawf ar gyfer dewis blaenoriaethau, e.e. a ddylid cynnwys Prosiect Mawndir Powys?

***PENDERFYNIAD**: Cynnwys Cronfa Ddŵr Cantref (PJ)*

4. Dylid ystyried y Migneint. A ddylid ehangu'r Elenydd hefyd i gynnwys y cwtiad aur?

***PENDERFYNIADAU**: Dylai DL/JD/PJ ehangu'r Elenydd.*
*- Dylid cynnwys y Migneint ond bydd angen i HB ysgrifennu adroddiadau ynghylch prosiectau penodol a'u mapio.*

5. Ymestyn ardal prosiect "Mawndiroedd y Mynydd Du" er mwyn sicrhau ei bod yn ehangach, cynnwys rhannau eraill o'r Bannau canolog ac ailenwi ardal y prosiect yn "Mawndiroedd Bannau Brycheiniog" neu rywbeth tebyg.

***PENDERFYNIAD? I'W GADARNHAU***

**Rhestrau o gamau gweithredu sy'n flaenoriaeth**
Cytunwyd y dylid cadw un rhestr yn unig sy'n dod â'r prif flaenoriaethau gweithredu a'r blaenoriaethau gweithredu ail haen ynghyd ar gyfer mapiau lefel 3. Mae angen i bob ardal gynnwys prosiectau penodol, a rhaid i rywun a enwir fod yn gyfrifol am gynhyrchu'r fanyleb a'r mapiau. Mae'r rhan fwyaf o'r mapiau blaenoriaethau cyfredol wedi'u cwblhau, a'r ddau fap nad ydynt wedi eu cwblhau yw:

- **Mapiau Hiraethog – DL**
- **Mapiau llinos y mynydd – DL**
- **Coed/grugieir duon Ardal Cadwraeth Arbennig y Berwyn – RT**

**Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r mapiau hyn yw 2 Medi, a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r mapiau a'r manylebau ar gyfer y camau gweithredu ychwanegol sy'n flaenoriaeth y cytunwyd arnynt heddiw yw 31 Medi.**

**Pwyntiau cyffredinol**
Mae mapiau lefel 2 yn nodi cynefinoedd sy'n flaenoriaeth. Gellir cyfeirio at y rhain wrth wneud penderfyniadau a cheisiadau am gyllid ac ati.

Bydd dehongli a chyfathrebu ar gyfer y mapiau'n rhan bwysig o'r gwaith. Bydd angen nodi'n glir pa rywogaethau nad ydynt wedi'u cynnwys, ac mae cynefinoedd sydd dros ardal helaeth hefyd yn broblem, e.e. gwrychoedd, pyllau ac ati.

Mae'r mapiau yn rhan o weithgarwch y ffrwd waith sy'n ymwneud â'r System Wybodaeth Ddaearyddol yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, a chânt eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau traws-sector, e.e. astudiaeth achos Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
**CAMAU GWEITHREDU**
- **Bydd JK/JS yn gweithio i godi statws y prosiect hwn yn y Cyngor Cefn Gwlad ac yn gwneud cais am adnoddau ar y System Gynllunio a Chyllidebu.**
- **Bydd JK yn codi pwysigrwydd cefnogaeth sefydliadol yng nghyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar 12 Gorffennaf –** *Wedi'i wneud.*
- **Bydd JS yn treulio diwrnod gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar er mwyn edrych ar fapiau ar gyfer adar yr ucheldir (ar ôl i'r mapiau o ardaloedd pwysig ar gyfer adar gael eu cyhoeddi).**

**Fframwaith yr Ucheldir**
Ar ôl i'r mapiau lefel 3 ar gyfer yr ucheldir gael eu cwblhau, bydd angen edrych i weld sut y byddant yn cyd-fynd â Fframwaith yr Ucheldir. Yn ogystal, mae gan y Comisiwn Coedwigaeth brosiect sy'n blaenoriaethu gwaith adfer corsydd ar ôl cwympo coed, a dylai'r prosiect hwn gael ei gynnwys hefyd mewn adolygiad o Fframwaith yr Ucheldir. Mae angen cynnwys glaswelltir asidig yr ucheldir – mae gan Alex Turner (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) arbenigedd yn y maes hwn.

**Partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**
Cytunwyd ar ddau ymweliad: un yn y de/canolbarth ac un yn y gogledd.
**CAMAU GWEITHREDU**
- **Bydd GE yn arwain y gwaith o drefnu'r cyfarfod yn y de a'r canolbarth. Cynigiodd JD leoliad sy'n gallu dal 30 o bobl. Cynigiodd PJ, JS, CM, JD, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a GE fynychu.**
- **Bydd PJ yn arwain y gwaith o drefnu lleoliad ar gyfer y cyfarfod yn y gogledd (canolfan ymwelwyr Llyn Brenig) a bydd JK yn helpu i drefnu'r cyfarfod. Cynigiodd PJ, JS, CM a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar fynychu.**

**Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth**
Cafwyd y dasg o adolygu Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru, gan gynnwys cylchoedd gorchwyl y grwpiau amrywiol sy'n rhan o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**Glastir – Yr Elfen wedi'i Thargedu**

**CAMAU GWEITHREDU**

- **Bydd CM yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran Grŵp Ecosystem yr Ucheldir i ofyn am eglurhad ynghylch y berthynas rhwng cynllun lefel mynediad a chynllun lefel uwch.**
- **Bydd CM yn dosbarthu amodau Cynlluniau Lefel Uwch a dylai pawb ddarparu sylwadau cyn gynted ag sy'n bosibl drwy law CM.**
- **Bydd CM yn gofyn i Lywodraeth Cymru am yr amodau diweddaraf ar gyfer tir comin.**

**Unrhyw fater arall**

1. Mae angen adolygu'r cynlluniau gweithredu ar gyfer yr ucheldir yng ngoleuni'r blaenoriaethau.

**CAM GWEITHREDU**

- **Bydd PJ, JS, JK a CM yn arwain y gwaith o adolygu'r cynlluniau gweithredu.**

2. Mae gwaith integreiddio rhywogaethau a chynefinoedd yn cynnwys edrych ar gynefinoedd a chilfachau ar hyd trywydd gwaith tebyg y mae Natural England wedi ei gyflawni.

**CAMAU GWEITHREDU**

- **Bydd Grŵp yr Ucheldir yn datblygu'r gwaith hwn.**
- **Bydd SB yn trefnu ail gyfarfod integreiddio ac yn cynnwys cynefinoedd gwlyptiroedd hefyd.**

3. Mae Prosiect Mawndir Powys yn cael ei ddatblygu gan Rwydwaith Mawn Powys a gaiff ei gadeirio gan Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn. Cynhaliwyd cyfarfod gyda phorwyr lleol sy'n cefnogi'r prosiect. Cyflwynir cais i Gronfa Fioamrywiaeth LIFE y flwyddyn nesaf.

**CAM GWEITHREDU**

- **Bydd PJ yn dosbarthu nodiadau ynghylch Prosiect Mawndir Powys.**

**3 neges allweddol** *(Dylech addasu'r pwyntiau canlynol i sicrhau eu bod yn ystyrlon ar gyfer eich rhwydweithiau chi)*

- **Chwilir am bartneriaid newydd i gyflwyno ceisiadau sy'n ymwneud â'r ucheldir i gronfa Amgylchedd Cymru yn y dyfodol.**
- **Mae Grŵp Ecosystem yr Ucheldir yn bwriadu cynnal dau gyfarfod gyda Phartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn yr hydref. Bydd manylion ar gael yn fuan.**
- **Ceir pryder ynghylch y berthynas rhwng cynllun Lefel Mynediad a Lefel Uwch Glastir, ac mae Grŵp Ecosystem yr Ucheldir yn ceisio cael eglurhad yn ei chylch.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Drenewydd ar 13 Hydref.**